

2013 Rhif 3238 (Cy. 318)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Twnnel Conwy, Conwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) (Rhif 2) 2013

Gwnaed

20 Rhagfyr 2013

Yn dod i rym

3 Ionawr 2014

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caer - Bangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarnau penodedig o’r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 3 Ionawr 2014. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Twnnel Conwy, Conwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) (Rhif 2) 2013.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

(i) ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir ar gyfer y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(ii) ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnod o ddyddiadau cau fel y pennir yn Atodlen 6, gan ddechrau am 18:00 o'r gloch ar 3 Ionawr 2014 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

(iii) ystyr “y darn(au) o'r gefnffordd” (“*the length(s) of the trunk road*”) yw'r darnau hynny o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1 i 5 i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau a Chyfyngiadau

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 13, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru, ac eithrio cerbyd esempt, ar hyd y gerbyttffordd tua'r dwyrain na'r gerbyttffordd tua'r gorllewin ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. (1) Tra bo cerbydau sydd wedi eu gwahardd gan erthygl 3 rhag symud ar y gerbyttffordd tua'r dwyrain ond, yn unol ag erthygl 13, heb eu gwahardd ar y gerbyttffordd tua'r gorllewin, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd:-

- (i) mynd yn lôn allanol y gerbyttffordd tua'r gorllewin ar y darn o'r gefnffordd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r dwyrain;
- (ii) mynd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r dwyrain drwy y naill fwllch neu'r llall yn llain ganol y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

(2) Tra bo cerbydau wedi eu gwahardd gan erthygl 3 rhag symud yn y gerbyttffordd tua'r gorllewin ond, yn unol ag erthygl 13, heb eu gwahardd yn y gerbyttffordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd:-

- (i) mynd yn lôn allanol y gerbyttffordd tua'r dwyrain ar y darn o'r gefnffordd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gorllewin;
- (ii) mynd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gorllewin drwy unrhyw un o'r bylchau yn llain ganol y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 13, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 13, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

7. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 13, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

8. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 13, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd sydd â'i led yn 3.20 o fetrau neu ragor fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4.

9. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 13, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd sydd â'i led yn llai na 3.20 o fetrau fynd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5.

Atal Dros Dro

10. Atelir dros dro drwy hyn ddarpariaethau Rheoliad 13 o Reoliadau Gorchymyn Ffordd Arbennig (Glanconwy i Forfa Conwy) 1990(3) mewn perthynas â'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 ar yr adegau hynny y mae'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 6 a 7 yn weithredol.

11. Atelir dros dro drwy hyn ddarpariaethau Rheoliad 13 o Reoliadau Gorchymyn Ffordd Arbennig (Bae Colwyn i Lanconwy) 1985(4) mewn perthynas â'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 ar yr adegau hynny y mae'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 6 a 7 yn weithredol.

12. Atelir dros dro drwy hyn ddarpariaethau o Orchymyn Cefnffordd yr A55 (Glanconwy - Morfa Conwy, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Terfyn Cyflymder 70 mya Dros Dro) 2013(5) mewn perthynas â'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 ar yr adegau hynny y mae'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 6 a 7 yn weithredol.

Cymhwyso

13. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8 a 9 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

14. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 20 Rhagfyr 2013

R Morgan

R MORGAN

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

- (1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
- (2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
- (3) O.S. 1990/1586
- (4) O.S. 1985/824
- (5) O.S. 2013/693 (Cy.85)

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

Terfynau'r gwrthlif

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 105 o fetrau i'r dwyrain o borth dwyreiniol Twannel Conwy ac sy'n ymestyn tua'r gorllewin at bwynt 110 o fetrau i'r gorllewin o borth gorllewinol Twannel Conwy.

ATODLEN 2

Terfynau'r bylchau yn y llain ganol

1. Y bwllch yn y llain ganol rhwng pwynt 45 o fetrau i'r dwyrain o borth dwyreiniol Twannel Conwy a phwynt 105 o fetrau i'r dwyrain o'r porth hwnnw.
2. Y bwllch yn y llain ganol rhwng pwynt 60 o fetrau i'r gorllewin o borth gorllewinol Twannel Conwy a phwynt 110 o fetrau i'r gorllewin o'r porth hwnnw.

ATODLEN 3

Gwahardd cerbydau, terfynau cyflymder 30 mya a 40 mya

1. Y darn hwnnw o'r brif gerbyttfordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o ganolbwynt trosbont Brompton Avenue tua'r gorllewin at bwynt 787 o fetrau i'r dwyrain o borth dwyreiniol twannel pentir Penmaen-bach tua'r dwyrain, gan gynnwys y bylchau yn y llain ganol yn Atodlen 2.
2. Y darn hwnnw o'r brif gerbyttfordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o ganolbwynt trosbont Traphont Red Gables i'r llain ganol wrth bwynt 191 o fetrau i'r

gorllewin o borth gorllewinol twnnel pentir Penmaenbach tua'r dwyrain.

3. Y darn hwnnw o'r brif gerbyttfordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o'r llain ganol wrth bwynt 787 o fetrau i'r dwyrain o borth dwyreiniol twnnel pentir Penmaenbach tua'r dwyrain at ganolbwynt trosbont Brompton Avenue.

4. Y darnau cyfan o'r ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r gorllewin a thua'r dwyrain wrth Gyffordd 19, Cyfnewidfa Glanconwy, Cyffordd 18, Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno a Chyffordd 17, Cyfnewidfa Morfa Conwy.

ATODLEN 4

Cyfyngu ar Led Cerbydau

1. Y darn hwnnw o'r gerbyttfordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt 30 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 16, Cylchfan y Puffin hyd at ddiwedd y trwyniad lle mae'r ffordd ymuno tua'r dwyrain yn ymuno â phrif gerbyttfordd yr A55 wrth Gyffordd 19, Cyfnewidfa'r Black Cat gan gynnwys ffyrdd ymuno wrth Gyffordd 17, Cyfnewidfa Morfa Conwy a Chyffordd 18, Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno.

2. Y darn hwnnw o'r gerbyttfordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o gychwyn y trwyniad lle mae'r ffordd ymadael tua'r gorllewin yn ymrannu oddi wrth brif gerbyttfordd yr A55 wrth Gyffordd 19, Cyfnewidfa'r Black Cat at bwynt 30 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 16, Cylchfan y Puffin, gan gynnwys y ffyrdd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 19, Cyfnewidfa'r Black Cat, Cyffordd 18, Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno a Chyffordd 17, Cyfnewidfa Morfa Conwy.

ATODLEN 5

Cyfyngu ar Led Cerbydau mewn cilfan

Y darn hwnnw o'r gilfan ar y gerbyttfordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o bwynt 1579 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt pont droed Hen Wrych at bwynt 1768 o fetrau i'r gorllewin o'r un pwynt.

ATODLEN 6

18:00 3 Ionawr 2014 – 07:30 13 Ionawr 2014
18:00 31 Ionawr 2014 – 07:30 31 Mawrth 2014
18:00 20 Mai 2014 – 07:30 21 Mai 2014
18:00 21 Mai 2014 – 07:30 22 Mai 2014
18:00 17 Mehefin 2014 – 07:30 18 Mehefin 2014
18:00 18 Mehefin 2014 – 07:30 19 Mehefin 2014
18:00 2 Medi 2014 – 07:30 3 Medi 2014
18:00 3 Medi 2014 – 07:30 4 Medi 2014
18:00 16 Medi 2014 – 07:30 17 Medi 2014
18:00 17 Medi 2014 – 07:30 18 Medi 2014
18:00 18 Tachwedd 2014 – 07:30 19 Tachwedd 2014
18:00 19 Tachwedd 2014 – 07:30 20 Tachwedd 2014
18:00 16 Rhagfyr 2014 – 07:30 17 Rhagfyr 2014
18:00 17 Rhagfyr 2014 – 07:30 18 Rhagfyr 2014